| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 20 Tachwedd 2024 |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog** | Y Cyng. Julie Matthews (Strategaeth Gorfforaethol, Polisi a Chydraddoldeb) / Helen Vaughan-Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau ac Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO)) |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Helen Vaughan-Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau ac Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO)) |
| **Awdur yr adroddiad** | Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth |
| **Teitl** | Adroddiad yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth 2023-24 |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024 ac mae'n darparu gwybodaeth am lywodraethu gwybodaeth y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am achosion o gael mynediad di-awdurdod at ddata sy'n groes i'r Ddeddf Diogelu Data sydd wedi bod yn destun ymchwiliad gan SIRO CSDd. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys data am geisiadau Rhyddid Gwybodaeth, Gwybodaeth Amgylcheddol a Diogelu Data a ddaeth i law'r Cyngor, gan gynnwys rhai a atgyfeiriwyd at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am ysgolion Sir Ddinbych hefyd.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae Polisi Diogelu Data y Cyngor, y Polisi Rhyddid Gwybodaeth a'r Polisi Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn gofyn am gyflwyno adroddiad blynyddol am gynnydd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol er mwyn caniatáu i Aelodau gael trosolwg.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Ochr yn ochr â'r Swyddog Diogelu Data, mae ar yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) gyfrifoldeb penodol i sicrhau bod yr wybodaeth a gedwir gan y Cyngor yn cael ei rheoli'n ddiogel, yn effeithiol ac yn unol â'r ddeddfwriaeth.

4.2 Mae'r systemau a ddyluniwyd i sicrhau bod y rolau hyn yn cael eu gwneud yn llwyddiannus yn dibynnu ar dryloywder ac ar fod yn agored, felly mae'n arbennig o bwysig bod Aelodau'n cael trosolwg o'r trefniadau a pherfformiad llywodraethu gwybodaeth.

4.3 Ond er gwaetha systemau llywodraethu gwybodaeth y Cyngor, bu achosion o gael mynediad di-awdurdod at ddata o hyd, a chânt eu disgrifio isod ynghyd â gwybodaeth am rôl y Cyngor wrth reoli Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, Ceisiadau am Wybodaeth Amgylcheddol a cheisiadau Diogelu Data (Ceisiadau gan Unigolion i Weld Gwybodaeth Amdanynt eu Hunain).

4.4 Mae'r Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol fel a gynigiwyd gan Lywodraeth flaenorol San Steffan (cyn 04/07/2024) bellach yn ddarfodedig. Mae Llywodraeth newydd San Steffan yn y camau cyntaf o greu Bil Gwybodaeth Ddigidol a Data Clyfar, yn ogystal â Bil Diogelwch Seiber a Chadernid.

**Torri Rheolau Diogelu Data**

4.5 Rhwng mis Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, roedd 33 achos o dorri rheolau data a oedd yn cynnwys data personol. Mae hyn yn gynnydd ers 2022/23, pan fu 27 achos. Ond mae'n ostyngiad ers 2021/22, pan oedd 35 achos. Mae Tabl 1 yn Atodiad 1 yn rhoi rhagor o fanylion am yr achosion o dorri rheolau data a gafodd eu hysbysu yn ystod 2023/24, yn cynnwys y rheswm a'r nifer.

4.6 Ystyriwyd bod un o'r digwyddiadau hyn yn ddigon i roi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac mae'n dal i fod yn destun ymchwiliad. Mae hyn yn ostyngiad ers 2022/23, pan ystyriwyd bod tri achos yn ddigon i roi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

4.7 Achos sylfaenol mwyafrif yr achosion hyn o dorri rheolau data oedd gwallau dynol. Mae datrysiadau TG posibl yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd ac maen nhw'n bwyntiau sefydlog ar raglen y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth sy'n cwrdd bob chwarter.

**Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (RhG) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (RhGA)**

4.8 Cafwyd cyfanswm o 1,188 o geisiadau RhG a RhGA yn ystod y 12 mis at 31 Mawrth 2024. Mae Tabl 2 yn Atodiad 2 yn rhoi rhagor o fanylion am nifer y ceisiadau a gwblhawyd rhwng 2014/15 a 2023/24 yn cynnwys cyfanswm y ceisiadau a dderbyniwyd a'r nifer a'r ganran a ymatebwyd iddynt o fewn y terfyn amser.

4.9 Cafwyd gostyngiad sylweddol mewn ceisiadau RhG a RhGA yn ystod 21/22 (-10%) ond cafwyd cynnydd o 17% ers hynny. Mae'r duedd hon yn parhau gyda nifer uwch nag erioed o geisiadau yn Chwarter 4 2023/24 (359 o geisiadau).

4.10 Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ymateb i o leiaf 90% o geisiadau RhG a RhGA o fewn y terfyn amser. Rydym wedi cyrraedd y targed hwn dros y 2 flynedd diwethaf.

4.11 Roedd y wybodaeth y gofynnwyd amdani dros y flwyddyn am amrywiaeth eang o bynciau, er enghraifft, bridio cŵn, gofal maeth, ceiswyr lloches, coed a blannwyd ac a gwympwyd, a dirwyon parcio (Rhybuddion Tâl Cosb). Fodd bynnag, roedd y ceisiadau mwyaf diweddar a ddaeth i law yn ymwneud â gwybodaeth am:

- Angladdau Iechyd y Cyhoedd ac angladdau Llys Gwarchod: 49
- Llety dros dro: 24
- Cydraddoldeb: tua 19
- Tyllau ffordd: 18
- Teledu Cylch Caeëdig (TCC): 18

4.12 Mae rhai ceisiadau am wybodaeth yn cymryd amser a gellir eu huwchgyfeirio at uwch swyddogion, neu eu huwchgyfeirio trwy gyflwyno mwy o geisiadau, gan gynyddu'r baich ar Dîm Hawl i Wybodaeth y Cyngor.

4.13 Mae Tabl 3 yn Atodiad 2 yn darparu'r nifer o geisiadau yn ôl math o ymgeisydd ar gyfer 2023/24. Daeth y nifer fwyaf o geisiadau i law gan y mathau canlynol o ymgeiswyr. Dylid nodi nad oes modd nodi'r math o ymgeisydd bob amser a byddwn yn cofnodi mathau anhysbys fel 'cyhoedd'. Cafodd y categori 'cyhoedd' ei gynyddu

gan weithgarwch bot tebygol ar un achlysur – daeth tua 20 o geisiadau i law o fewn ychydig oriau, pob un â chyfeiriadau e-bost fformwläig a chynnwys wedi'i fformatio'n debyg. Gallai hyn ddigwydd eto wrth i bobl arbrofi â'r dechnoleg newydd. Daeth 4 cais i law yn Gymraeg neu'n ddwyieithog yn ystod y flwyddyn.

**Ceisiadau Diogelu Data (Ceisiadau am ddata personol)**

4.14 Daeth 195 o geisiadau diogelu data i law yn ystod 2023/24 - gostyngiad o'r 236 a ddaeth i law yn ystod 2022/23. Mae rhagor o wybodaeth am gyfansymiau ers 2019/20 yn Nhabl 4 a siart 1 yn Atodiad 3.

4.15 Ceisiadau gan Unigolion i Weld Gwybodaeth Amdanynt eu Hunain oedd 85 (43.5% o'r cyfanswm) [cynnydd o 77 a 32.5% y llynedd] a Cheisiadau Eithrio oedd 110 (56.5 o'r cyfanswm) [gostyngiad o 159 a 67.5% y llynedd].

4.16 Mae cyfran y ceisiadau Eithrio am ddata personol (gorfodi'r gyfraith fel arfer) wedi gostwng i lefel fwy rhesymol, gan ostwng o 67.5% o'r holl geisiadau am ddata personol yn 2022-2023, i 56.5% o geisiadau yn 2023-2024 (yn 2022-2023, roedd llond llaw o ymgyrchoedd heddlu ar raddfa fawr a greodd mwy na 30 o geisiadau data personol gwahanol ar eu pen eu hunain). Mae 2023-2024 yn fwy tebyg i'r gymhareb o Geisiadau gan Unigolion i Weld Gwybodaeth Amdanynt eu Hunain i geisiadau Eithrio y byddem yn disgwyl eu gweld fel arfer. Mae dadansoddiad manwl o Geisiadau Mynediad at Ddata yn ystod 2023/24 wedi'i ddarparu yn Nhabl 5, Atodiad 3.

4.17 Mae tua 92% o'r ymatebion yn ystod y flwyddyn o fewn y terfynau amser. Mae hyn i lawr o 94% yn y flwyddyn flaenorol. Amcangyfrifwyd nifer fach o achosion Chwarter 3 a 4. Mae hyn oherwydd bod oedi wedi bod o ran gwirio hunaniaeth a/neu weithredu'r terfyn amser statudol 90 diwrnod estynedig. Ni chaiff yr achosion hyn eu cadarnhau fel bod o fewn/tu allan i'r terfyn amser tan ar ôl mis Mehefin 2024. Yn dechnegol, nid oes gan geisiadau'r Heddlu ddyddiad "terfyn" statudol fel Ceisiadau gan Unigolion i Weld Gwybodaeth Amdanynt eu Hunain (mwy fel disgwyliad "cyn gynted ag sy'n bosibl"). Maen nhw wedi'u cofnodi yma fel "Tu Hwnt i'r Terfyn Amser" os byddant yn mynd dros fis calendr.

**Adolygiadau Mewnol**

4.18 Mewn rhai achosion, cafodd penderfyniadau am fynediad at wybodaeth eu herio gan yr ymholwr a chynhaliwyd adolygiad mewnol. Ar gyfer ceisiadau RhG a RhGA, roedd 17 adolygiad mewnol yn ystod 2022/23, a chafodd 9 ohonynt eu cadarnhau yn gyfan gwbl neu'n rhannol. Mae'r rhain yn debyg i ffigurau'r llynedd, er bod nifer y canlyniadau ble cafodd yr her ei chadarnhau wedi gostwng.

4.19 Pan nad yw'n bosibl datrys materion yn uniongyrchol gyda'r ymholwr gan y Tîm Hawl i Wybodaeth, neu os ydynt yn achosion cymhleth neu sensitif, gallant gael eu hystyried gan y Panel Mynediad at Wybodaeth a gafodd ei gadeirio gan Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth Dros Dro yn ystod 2022/23. Cynhaliwyd tri chyfarfod Panel yn ystod y flwyddyn ac roedd y ceisiadau'n ymwneud ag Ysbyty Gogledd Cymru, adeiladau gwag y Cyngor, seiberdroseddau a Maes Chwarae Parc Drifft.

4.20 O ran Ceisiadau gan Unigolion i Weld Gwybodaeth Amdanynt eu Hunain, er nad oes hawl statudol i gynnal adolygiad mewnol, mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn argymell proses adolygu. Cynhaliwyd 5 adolygiad mewnol yn ystod 2023-2024 (cynnydd o 3 yn 2022-2023). Mae rhagor o fanylion sy'n ymwneud â'r rhain fel a ganlyn:

- Cafodd 2 ddatgeliad eu gwrthod oherwydd pryderon diogelu a oedd yn ymwneud â gwrthrychau'r data. Roedd penderfyniadau adolygiad mewnol yn cefnogi'r penderfyniadau dechreuol i wrthod datgelu yn y ddau achos.
- Cafodd 1 datgeliad ei wrthod oherwydd y byddai rhagfarn debygol o ran prosesau rheoleiddio statudol parhaus. Roedd penderfyniad adolygiad mewnol yn cefnogi'r penderfyniad dechreuol i wrthod datgelu.
- Cafwyd 1 her yn ymwneud â golygiad. Roedd yr unigolyn yn teimlo bod golygiad yn rhy llym. Roedd Adolygiad Mewnol yn cefnogi eu her yn rhannol a darparwyd rhywfaint o ddata pellach.
- Cafwyd 1 gŵyn yn dilyn datgeliad Cais gan Unigolion i Weld Gwybodaeth Amdanynt eu Hunain, a oedd yn honni bod y datgeliad yn amhriodol a bod y data personol a gofnodwyd o ansawdd gwael. Daeth Adolygiad Mewnol i'r casgliad na ddylid cynnal y gŵyn.

**Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth**

4.21 Ymyrrodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth mewn un achos Rhyddid Gwybodaeth eleni. Cynghorodd Gwasanaeth mewn camgymeriad fod unigolyn yn cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn hytrach nag argymell cais Hawl i Wybodaeth. Mae hyn yn annhebygol o ddigwydd eto, ac mae'r cais wedi'i ateb heb gyhoeddi hysbysiad o benderfyniad.

4.22 Ni wnaeth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ymyrryd mewn unrhyw Geisiadau gan Unigolion i Weld Gwybodaeth Amdanynt eu Hunain yn 2023-2024.

**Ysgolion**

4.23 Mae ysgolion unigol yn gyfrifol am y ffordd y caiff eu data ei reoli a nhw sy'n rheoli'r data hwnnw, ond mae'r Cyngor yn darparu cefnogaeth trwy'r Dirprwy Swyddog Diogelu Data Ysgolion er mwyn cyrraedd y safonau uchaf o ran diogelu data. Rydym yn gwneud hyn mewn pob math o ffyrdd, gan gynnwys cyngor a mynediad at ein polisïau a gweithdrefnau. Mae rhagor o wybodaeth yn Atodiad 4 am fynediad di-awdurdod at ddata mewn ysgolion a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data i ysgolion.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1 Mae'r adroddiad hwn yn cefnogi thema'r Cyngor i fod yn Gyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy'n uchel ei berfformiad.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Amherthnasol

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1 Amherthnasol (adroddiad er gwybodaeth yn unig).

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Amherthnasol

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Ddim yn ofynnol.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?

10.1 Er mai er gwybodaeth yn unig y mae’r adroddiad hwn, byddai risg i’r Cyngor pe na bai systemau rheoli gwybodaeth a diogelu data yn cael eu cynnal. Mae trosolwg gan Bwyllgor yn elfen bwysig o sicrhau bod ein systemau yn effeithiol.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Nid oes angen gwneud penderfyniad.